**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 12 Gorffennaf 2023

**PWNC**

Eitem 5 : DATGANIAD O'R CYFRIFON, YN AMODOL AR ARCHWILIAD, AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a chymeradwyo’r Datganiad o’r Cyfrifon, yn amodol ar archwiliad, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen Cyflwyno Datganiad o’r Cyfrifon, ar ffurf ‘statudol’, wedi’i ardystio,(yn amodol ar archwiliad). Mae hwn yn ofyn adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

## TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Penderfyniad:** 12 Gorffennaf 2023

---

**PWNC**

Eitem 6 : DATGANIAD LLYWODRAETHU

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 12 Gorffennaf 2023

---

**PWNC**

Eitem 7 : STRATEGAETH ARFARNU AC EFFAITH

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo a derbyn y Strategaeth Arfarnu ac Effaith

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gylch newid sylweddol i wireddu Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn llwyddo i wireddu, mae'n hollbwysig bod pob agwedd ar y system ysgolion yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac yn eu cefnogi.

Ym Mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau a'r wybodaeth newydd ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCD), Awdurdodau Lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac yn amlinellu'r disgwyliadau ar bob un wrth gyfrannu at welliant cynaliadwy mewn ysgolion. Bydd angen felly i'r holl randdeiliaid yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru weithio o fewn y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd hwn ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Mae angen i GwE allu arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth graidd o wella ysgolion, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---